

GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG AR OFALWYR – CYNLLUN BLYNYDDOL 2018/19

Ein Gweledigaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru

Mae gennym weledigaeth lle mae holl ofalwyr Cymru'n cael eu hadnabod, eu cydnabod a'u cefnogi am y gofal a'r ymroddiad amhrisiadwy y maent yn eu dangos.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi'r un hawliau i ofalwyr â hawliau'r rheini y maent yn gofalu amdanynt, i gael eu hasesu ar gyfer derbyn cymorth.

Daeth y Ddeddf i rym dros ddwy flynedd yn ôl, ac mae gan bartneriaid ym meysydd iechyd ac addysg, yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector - ynghyd â'r gofalwyr eu hunain - rôl i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau bod yr hawliau cryfach hyn yn cael eu cydnabod a'u gweithredu gyda'r nod o gefnogi gofalwyr wrth eu gwaith.

Er mwyn darparu arweinyddiaeth a symbyliad, cafodd Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr ei sefydlu. Mae ei aelodau'n cynnwys partneriaid allweddol, a bydd yn darparu fforwm cenedlaethol i lywio'r gwaith o wella'r cymorth a gynigir i ofalwyr; a bydd hefyd yn darparu ymateb trawslywodraethol a fydd yn gydnaws â'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr, sef:

- Helpu gofalwyr i fyw yn ogystal â gofalu;
- Adnabod a chydabod gofalwyr;
- Darparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth.

Cynllun Gweithredu 2018-19

Er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau i ofalwyr yn unol â'n blaenoriaethau cenedlaethol, ym mis Chwefror 2018 cytunodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol i neilltuo £1.095m yn 2018/19.

Cafodd £3m o gyllid cylchol i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal seibiant ar gyfer gofalwyr ei gymeradwyo yn y flwyddyn 2017/18.

Rhodddwyd **£3m** i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal seibiant i ofalwyr oherwydd y rôl hanfodol y maent yn ei chyflawni.

Rhodddwyd **£1m** i helpu partneriaid i weithio gyda'i gilydd i ddarparu

cymorth gwell i ofalwyr, drwy ddefnyddio meddygfeydd i godi ymwybyddiaeth ymysg gofalwyr, a gwella'r cymorth a ddarperir ar gyfer gofalwyr ar adegau rhyddhau o'r ysbyty.

Rhoddwyd **£95k** i sefydliadau yn y trydydd sector i weithredu prosiectau sy'n cefnogi gofalwyr yng Nghymru yn unol â'r tair blaenoriaeth genedlaethol.

Monitro cynnydd

Cyfrifoldeb uniongyrchol Swyddogion Llywodraeth Cymru yw monitro cynnydd mewn perthynas â'r cyllid sydd wedi ei neilltuo.

Mae **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr** yn darparu fforwm cenedlaethol ar gyfer goruchwylio'r gwaith cyflawni yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, ynghyd â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i wireddu'r blaenoriaethau hynny. Bydd y Grŵp Cynghori yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar gamau gweithredu a dargedir yn ogystal â chyllid, a bydd yn monitro'r rhain gwireddu'r blaenoriaethau yn y blynyddoedd nesaf.

HELPU GOFALWYR I FYW YN OGYSTAL Â GOFALU - Rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol o'i waith gofalu er mwyn iddo allu parhau i gyflawni'r gwaith hwnnw, ac er mwyn iddo allu cael ei fywyd ei hun ochr yn ochr â'r gwaith gofalu.

- Rhoddwyd **£45k** i Gofalwyr Cymru ar gyfer gweithredu prosiect a fydd yn helpu cyflogwyr ledled Cymru i greu gweithle sy'n fwy cefnogol/cyfeillgar i ofalwyr. Drwy weithio gyda Gofalwyr y DU, sydd eisoes wedi sefydlu Cyflogwyr o blaid Gofalwyr ar lefel y DU, bydd Gofalwyr Cymru yn sefydlu prosiect ar-lein yng Nghymru ar gyfer Cyflogwyr o blaid Gofalwyr.

Bydd hyn yn cynnwys cyfieithu adnoddau presennol Gofalwyr y DU i'r Gymraeg, a datblygu graddfa danysgrifio i'r cyflogwyr sy'n aelodau yng Nghymru. Bydd Gofalwyr Cymru yn sefydlu gwefan a brand, ac yn targedu cyflogwyr cenedlaethol sydd eisoes yn tanysgrifio i Cyflogwyr o blaid Gofalwyr, Gofalwyr y DU, er mwyn cefnogi'r gwaith y gellir ei wneud ar lefel Cymru. (Cyhoeddir adroddiad interim ym mis Medi 2018 – ac adroddiad diwedd y flwyddyn ym mis Mai 2019)

- Roddwyd **£3m** i awdurdodau lleol ledled Cymru tuag at ddarparu rhagor o ofal seibiant i ofalwyr oherwydd y gwaith hanfodol y maent yn ei gyflawni. Mae rôl gofal seibiant a seibiannau byr o ran cynnal llesiant y gofalwr, a'r person sydd â'r anghenion gofal, wedi ei hen sefydlu. Mae'r cyllid hwn bellach yn cael ei ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw; ym mis Chwefror 2018, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol gynnal momentwm y gwaith o ddarparu o seibiannau i ofalwyr drwy ddefnyddio'r cyllid hwn. (Gofynnwyd am adroddiad interim erbyn 31 Awst 2018)

ADNABOD A CHYDNABOD GOFALWYR - Os ydym am lwyddo i sicrhau canlyniadau gwell i ofalwyr, mae'n hanfodol gwella cydnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth angenrheidiol.

- Rhoddwyd **£36k** i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar gyfer datblygu set o adnoddau cenedlaethol i helpu awdurdodau lleol i gyflwyno system cardiau adnabod i ofalwyr ifanc yng Nghymru. Byddai'r gwaith hwn yn cyflawni'r canlynol:
 - Creu ystod o opsiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran dyluniad y cerdyn adnabod cenedlaethol, sydd wedi eu datblygu gyda chymorth gofalwyr ifanc ac wedi eu profi gyda chymorth amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon, meddygon, nyrsys, a fferyllwyr;
 - Cynhyrchu pecyn cymorth electronig, canllawiau, ac adnoddau dwyieithog i helpu Gwasanaethau Gofalwyr i ddosbarthu cardiau adnabod i ofalwyr ifanc;
 - Hwyluso'r gwaith o gynnal cyfarfodydd chwarterol i Wasanaethau Gofalwyr ar lefel genedlaethol, er mwyn creu cyfle i drafod unrhyw anawsterau, a darparu cymorth cymheiriaid a chyfleoedd i ddysgu;
 - Hwyluso proses genedlaethol i ofalwyr ifanc allu rhoi adborth yn ddiennw am eu profiad o wneud cais am gerdyn adnabod a'i ddefnyddio. Bydd y broses hon yn darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Gofalwyr;
 - Hyrwyddo'r cerdyn adnabod i Ofalwyr Ifanc drwy ein Rhwydwaith o Bartneriaid a thrwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

(adroddiad interim ym mis Medi 2018 – adroddiad diwedd y flwyddyn ym mis Mai 2019)

- Rhoddwyd **£14k** i Plant yng Nghymru i helpu'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc i helpu gofalwyr ifanc i fanteisio ar eu hawliau. Mae'r Rhwydwaith yn tynnu ynghyd gynrychiolwyr gofalwyr ifanc o bob un o'r prosiectau gofalwyr ifanc sydd ar waith ledled Cymru, gan greu cyfle i'r cynrychiolwyr gefnogi ei gilydd, yn ogystal â fforwm i'r gofalwyr ifanc drafod materion sy'n destun pryder i bawb. Unwaith y flwyddyn, bydd grŵp o ofalwyr ifanc o'r Rhwydwaith yn cyfarfod â Gweinidogion Cymru i gyflwyno profiadau a barn gofalwyr ifanc yng Nghymru i Lywodraeth Cymru. (bydd y gwaith monitro'n parhau – gan ddod i ben gyda chyfarfod â'r Gweinidog ym mis Mawrth 2019)

DARPARU GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH I OFALWYR - Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor priodol, pa le bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt

- Rhoddwyd **£1m** ar gyfer iechyd, yr awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae'r cyllid hwn yn gofyn i'r partneriaid weithio gyda'i gilydd i weithredu cynllun sy'n helpu meddygfeydd i godi ymwybyddiaeth ymysg gofalwyr ac i ddatblygu ffyrdd o weithio er mwyn eu cefnogi. Gall cynlluniau fel y rhain annog gofalwyr i gofrestru eu hunain fel gofalwyr gyda'u meddygfeydd, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y cyngor a'r cymorth priodol.

Hefyd fel rhan o'r £1m sydd wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd, yr awdurdodau lleol, a phartneriaid yn y trydydd sector, rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn yr wybodaeth, y cyngor, a'r cymorth a roddir mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty. Byddai hynny'n golygu cynnwys gofalwyr wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau rhyddhau. Felly, disgwylir i fyrdau iechyd nodi unrhyw agweddau ar ryddhau sy'n gweithio'n arbennig o dda, a defnyddio'r hyn a ddysgir yn y meysydd hynny i ddatblygu'r meysydd lle mae angen gwella, drwy weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

- Rhoddwyd **£10k** ar gyfer Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan i ehangu'r rhaglen waith y mae wedi ymgymryd â hi sydd â'r nod o

wella ymwybyddiaeth a gwybodaeth gofalwyr ledled Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant¹. Mae llawer o ofalwyr yn parhau heb wybod beth yw asesiad gofalwyr a sut y gallai arwain at ddarparu cymorth yn benodol ar eu cyfer. Nod y cyllid hwn yw ceisio rhoi sylw i'r diffyg hwn.

Bydd hyn yn helpu i ymateb i angen a nodwyd a fyddai'n helpu i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac ymateb i'r hawliau cryfach i ofalwyr y mae'n eu darparu. Mae llawer o ofalwyr yn parhau heb wybod beth yw asesiad gofalwr a sut y gallai'r asesiad hwnnw arwain at ddarparu cymorth yn benodol ar eu cyfer.

CEFNOGI'R HOLL FLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL:-

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu prosiect ar-lein ar gyfer darparu gwybodaeth, gydag adnoddau a phecynnau cymorth i hwyluso gwaith cymdeithasol at ddibenion cefnogi gofalwyr. Mae'r Adran Iechyd wedi sefydlu prosiect ar-lein tebyg o dan y Ddeddf Gofal (<http://carers.ripfa.org.uk/tools/>), a bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i ddysgu unrhyw wersi a allai helpu yn y gwaith o ddatblygu prosiect ar-lein gyfer Cymru. Bydd y wefan yn cynnwys astudiaethau achos a chanllawiau ar yr arferion gorau ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnal asesiadau gofalwyr, sy'n nodi'r canlynol:

- bod yn rhaid i ofalwyr wybod am eu hawliau i gael asesiad o dan y Ddeddf, ac yn gallu cael hwnnw yn brydlon;
- bod yn rhaid egluro manteision yr asesiadau hyn i sicrhau bod gofalwyr yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt i barhau i ofalu, ac i fyw bywydau llawn ac iach ochr yn ochr â hynny.

Nod y gwaith hwn yw ymateb i gasgliadau ac argymhellion Gwerthusiad Tracio'r Ddeddf a gynhelir gan Gofalwyr Cymru. Mae hwn yn gwerthuso effaith y gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

¹Ym mis Mehefin 2018, cafodd £10,000 ychwanegol ei gymeradwyo ar gyfer 2018-19 ar gyfer prosiect i wella gwybodaeth gofalwyr am eu hawliau.

Llesiant Cymru ar fywydau gofalwyr.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda Gofalwyr Cymru a sefydliadau Gofalwyr eraill i bennu cwmpas y gwaith hwn.

Er mwyn cefnogi ac ategu hynny, mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ym meysydd iechyd a llywodraeth leol a'r trydydd sector i ddatblygu adnodd e-ddysgu sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr, ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ymhlith y gofalwyr eu hunain.

Y Gronfa Gofal Integredig

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl allweddol yn y gwaith o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac mae hynny wedi dod i'r amlwg wrth weithredu'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, yn gweithio mewn modd integredig, yn ogystal â chyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'n cael ei defnyddio at amryw o ddibenion. Yn 2017/18, cafodd cwmpas y gronfa ei ehangu i gynnwys **gofalwyr**. Mae amcanion y gronfa bellach yn gydnaws â meysydd blaenoriaeth integreiddio'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae adroddiadau chwarterol y Gronfa Gofal Integredig yn cael eu cyflwyno i Swyddogion Llywodraeth Cymru – bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am y rhaglenni gwaith sy'n darparu cymorth i **ofalwyr**.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y Gronfa Gofal Integredig sy'n canolbwyntio ar ofalwyr yn cael ei rhoi i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr i'w helpu i nodi arferion da a hyrwyddo cymorth mwy cyson i ofalwyr ledled Cymru.